cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

2024/25

# PTMC Ffurflen gais i fyfyrwyr rhan-amser sy'n parhau

Rydym yn croesawu ceisiadau Cymraeg. Ni fydd ymgeisio yn Gymraeg yn oedi eich cais.
Gallwch hefyd ymgeisio ar-lein ar **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

## Am y ffurflen hon

**Pa adrannau ddylech chi eu cwblhau?**

Mae angen i **bob** myfyriwr gwblhau adrannau **1 a 2** a darllen, llofnodi a dyddio'r amodau a thelerau. Byddwch hefyd angen cwblhau adrannau eraill y ffurflen yn dibynnu ar am beth ydych chi eisiau ymgeisio.

| | |
|---|---|
| Myfyrwyr yn gwneud cais ar gyfer y Benthyciad Ffioedd Dysgu yn unig | Cwblhewch adrannau **3 ac 8** |
| Myfyrwyr yn ymgeisio am Fenthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ac/neu Fenthyciad Cynhaliaeth | Cwblhewch adrannau **3 i 9** |

**Cyn llenwi'r ffurflen hon, dylech ddarllen yr Hysbysiad Preifatrwydd ar dudalen 14 y nodiadau cysylltiedig.**

ⓖ Rydym wedi darparu nodiadau canllaw i'ch helpu felly cyfeiriwch at y rhain pob tro y gwelwch yr eicon hwn.

ⓣ Bydd rhaid i chi anfon tystiolaeth gyda'ch cais pob tro y byddwch yn gweld yr eicon hwn. Gellir dod o hyd i fanylion ynglŷn â'r dystiolaeth rydym ei hangen yn y nodiadau canllaw.

Efallai y byddwch yn gymwys am fwrsariaeth neu ysgoloriaeth. Er mwyn i brifysgol neu goleg allu pennu a thalu unrhyw fwrsariaeth neu ysgoloriaeth y bydd gennych hawl iddo, byddwn yn rhannu rhywfaint o'ch manylion personol, ariannol a chwrs yn ogystal â gwybodaeth am eich cymhwyster am gyllid i fyfyrwyr gyda nhw.

**Credydau Cwrs**

Cyn ymgeisio, mae angen i chi wybod faint o gredydau cwrs rydych chi'n bwriadu eu hastudio. Mae pob modiwl yr ydych yn ei astudio yn werth nifer o gredydau. Dylech gytuno faint o gredydau fyddwch chi'n astudio gyda'ch prifysgol.

I ymgeisio am Fenthyciad Ffioedd Dysgu, Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ac/neu Fenthyciad Cynhaliaeth, mae angen i chi fod yn astudio ar ddwyster cwrs o **25%** neu fwy yn y flwyddyn academaidd.

Cewch wybod mwy am gyllid i fyfyrwyr a lawrlwytho ein canllawiau rhan-amser ar **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

facebook.com/SFWales
twitter.com/SF_Wales

SFW/PTMCF/2425/A

# Cyllid i fyfyrwyr atodol

Efallai y byddwch yn gallu ymgeisio am gefnogaeth ariannol atodol os:

- oes gennych chi blant neu oedolion sy'n ddibynnol ariannol yn ariannol; ac/neu
- mae gennych anabledd, cyflwr iechyd hirdymor, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol.

## Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA)

Os hoffech wneud cais am DSA, bydd angen i chi:

- gwblhau a dychwelyd y ffurflen hon **a**
- cwblhau Ffurflen Gais Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA1).

Gallwch lawrlwytho'r ffurflen DSA1 o **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Ticiwch y blwch isod os ydych chi am i ni anfon DSA1 i chi.

☐ Anfonwch ffurflen DSA1 i mi

## Lwfans Dysgu Rhieni (PLA) a Grant Oedolion Dibynnol (ADG)

Os hoffech wneud cais am PLA neu ADG, bydd angen i chi:

- gwblhau a dychwelyd y ffurflen hon **a**
- cwblhau ffurflen gais Grantiau i Ddibynyddion ar gyfer myfyrwyr rhan-amser (PTGFD).

Gallwch lawrlwytho'r ffurflen PTGFD o **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Ticiwch y blwch isod os ydych chi am i ni anfon ffurflen PTGFD i chi yn hytrach.

☐ Anfonwch ffurflen PTGFD i mi

## Grant Gofal Plant (CCG)

Os hoffech wneud cais am CCG, bydd angen i chi:

- gwblhau a dychwelyd y ffurflen hon **a**
- cwblhau ffurflen gais Grantiau i Ddibynyddion ar gyfer myfyrwyr rhan-amser (PTGFD) **a** chais am help gyda chostau gofal plant ar gyfer myfyrwyr rhan-amser (PTCCG1).

Gallwch lawrlwytho'r ffurflen PTGFD a PTCCG1 o **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Ticiwch y blwch isod os ydych chi am i ni anfon ffurflen PTGFD a PTCCG1 i chi yn hytrach.

☐ Anfonwch ffurflen PTGFD a PTCCG1 i mi

**Os yw unrhyw wybodaeth a byddwch yn gofyn amdani ar goll neu'n aneglur, efallai na fyddwn yn gallu prosesu eich cais ac ni fyddwch yn derbyn unrhyw gyllid.**

# 1 Eich manylion personol

**Manylion personol**

**1.1 Cyfeirnod cwsmer** (g) ☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

**1.2** Llenwch y manylion hyn yn union fel y nodwyd ar eich tystysgrif geni neu basbort.

Os yw'ch enw wedi newid o'ch tystysgrif geni neu basbort, yna anfonwch dystiolaeth i gefnogi hyn yn cadarnhau'r newid. (t)

Teitl ☐ Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Unrhyw enwau eraill a ddefnyddiwyd i'ch adnabod

Rhyw ☐ Gwrywaidd ☐ Benywaidd

Dyddiad geni — Dydd ☐☐ / Mis ☐☐ / Blwyddyn ☐☐☐☐

**1.3 Rhif Yswiriant Gwladol** (g) ☐☐ - ☐☐☐☐☐☐ - ☐

Byddwn yn rhannu'r rhif Yswiriant Gwladol a roddwch gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i gadarnhau ei fod yn ddilys, a gyda Chyllid a Thollau EM i' n galluogi i gasglu eich ad-daliadau.

**1.4 Manylion cyfeiriad**

Cyfeiriad cyswllt

Cod Post

Anfonir yr holl ohebiaeth a gyhoeddwn i'r cyfeiriad hwn. Gallwch ddiweddaru'ch cyfeiriad ar unrhyw adeg trwy fewngofnodi i'ch cyfrif arlein neu trwy'n ffonio.

**1.4.1 Manylion cyswllt**

Rhowch eich manylion cyswllt presennol.

Rhif ffôn cyswllt

Rhif ffôn symudol

Cyfeiriad e-bost

# 1 Eich manylion personol – parhad

**1.5 Pa iaith hoffech chi i ni ddefnyddio pan ar lythyron a anfonwn atoch?**

☐ Cymraeg

☐ Saesneg

---

**1.6 Statws perthynas**

Beth yw eich statws perthynas presennol?

☐ Sengl

☐ Yn byw gyda phartner

Os ydych o dan 25 ac wedi bod yn briod/mewn partneriaeth sifil o'r blaen, dylech hefyd dicio'r blwch ar gyfer y statws priodasol perthnasol isod (g) (t)

☐ Priod/partneriaeth sifil

Rhowch ddyddiad y briodas/partneriaeth sifil

Dydd ☐☐ / Mis ☐☐ / Blwyddyn ☐☐☐☐

☐ Wedi gwahanu (t)

☐ Wedi ysgaru/partneriaeth sifil wedi'i diddymu (t)

☐ Gŵr/gwraig weddw/partner sifil sy'n fyw (t)

## 2 Ynghylch eich prifysgol neu goleg a chwrs

**2.1** **A fyddwch chi'n cael cyllid gan unrhyw ffynhonnell arall i fodloni costau eich ffioedd dysgu yn y flwyddyn academaidd hon?**

Rhowch wybod i ni am unrhyw gyfraniad i'ch ffioedd dysgu gan gyflogwr, cynllun bwrsariaeth neu o unrhyw fath o gronfa neu nawdd arall. Sylwer nad ydym angen gwybod os ydych chi'n derbyn Bwrsariaeth Addysg Uwch Rhai sy'n Gadael Gofal.

☐ **Na fyddaf**

☐ **Byddaf**

Beth yw ffynhonnell y cyllid hwn?

Faint o gyllid fyddwch chi'n ei gael?

**2.2** **A fyddwch yn astudio yn yr union yr un brifysgol neu goleg ac yn dilynyr union yr un cwrs ag yr oeddech ym mlwyddyn academaidd 2023/24?**

☐ **Na fyddaf**

☐ **Byddaf – ewch i 2.5**

**2.3** **Manylion coleg neu brifysgol**

Os yw'ch cwrs mewn prifysgol sy'n gyfuniad o nifer o golegau rhowch enw'r coleg yn gyntaf, ac yna enw'r brifysgol.

Enw

Cyfeiriad llawn

**2.3.1** **Os yw'r cwrs trwy fasnachfraint i brifysgol neu goleg arall, rhowch enw a chyfeiriad y brifysgol neu goleg arall**

Enw

Cyfeiriad llawn

**2.3.2** **Rhowch enw llawn eich cwrs**

Dylech wirio enw eich cwrs gyda'ch prifysgol neu goleg. Os na ellir cadarnhau manylion y cwrs a roddwch i ni eto, efallai y bydd eich cyllid i fyfyrwyr yn cael ei oedi. Peidiwch â rhoi enw eich modwl yma.

**2.4** **Cymhwyster yr ydych yn disgwyl ei gael**

Er enghraifft, BA (Anrh) Cymraeg

## 2 Ynghylch eich prifysgol neu goleg a chwrs – parhad

**2.5** **Yn y flwyddyn academaidd hon, pryd fyddwch chi'n dechrau eich astudiaethau?**

Mis ☐☐ / Blwyddyn ☐☐☐☐

**2.6** **Pryd fyddwch chi'n gorffen blwyddyn olaf eich cwrs?**

Mis ☐☐ / Blwyddyn ☐☐☐☐

**2.7** **I ba flwyddyn o'ch astudiaethau ydych chi'n mynd?**
Gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrthym i ba flwyddyn o'ch astudiaethau ydych chi'n mynd nid blwyddyn y cwrs.

☐

**2.8** **Ar ba ddyddiad wnaethoch chi ddechrau eich astudiaethau?**

Mis ☐☐ / Blwyddyn ☐☐☐☐

**2.9** **Ar gyfer faint o gredydau ydych chi'n bwriadu astudio yn y flwyddyn academaidd hon?** ⓖ

☐

**2.10** **Swm llawn y ffioedd dysgu mae'ch prifysgol neu goleg yn codi arnoch chi yn y flwyddyn academaidd hon** ⓖ

£ ☐

**2.11** **A fyddwch chi'n cyflawni lleoliad yn rhan o'r rhaglen gyfnewid Erasmus+, cynllun Turing neu raglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu (ILE)?**

☐ **Nac ydw**
☐ **Ydw** ⓖ

**2.12** **A ydych chi'n astudio cwrs dysgu o bell rhan-amser?**

☐ **Nac ydw – ewch i adran 3**
☐ **Ydw**

**2.13** **A oes gennych anabledd sy'n eich atal rhag mynychu'ch prifysgol neu goleg yn bersonol?** ⓖ

☐ **Nac oes**
☐ **Oes**

**2.14** **A ydych chi'n astudio cwrs dysgu o bell oherwydd eich bod chi neu aelod o'ch teulu (sy'n byw gyda chi) yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog tu allan i Gymru ar hyn o bryd?** ⓖ

☐ **Nac ydw**
☐ **Ydw – anfonwch dystiolaeth** ⓣ

# Cyn i chi fwrw ymlaen...

## Beth sydd angen i chi ei wybod

Rhaid i ddwyster eich cwrs fod yn o leiaf 25% yn y flwyddyn academaidd 2024/25 er mwyn bod yn gymwys i ymgeisio am Fenthyciad Ffioedd Dysgu, Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ac/neu Fenthyciad Cynhaliaeth.

## Beth sydd angen ichi ei wneud

Mae'r wybodaeth isod yn dweud wrthych pa adrannau o'r ffurflen sydd angen i chi eu llenwi.

| | |
|---|---|
| **Os ydych chi eisiau gwneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu yn unig** | Cwblhewch **adrannau 3 ac 8** |
| **Os ydych chi eisiau ymgeisio am Fenthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ac/neu Fenthyciad Cynhaliaeth** | Cwblhewch **adrannau 3 i 9** |

## 3 Eich cais am fenthyciad

**3.1** **Dywedwch wrthym faint o Fenthyciad Ffioedd Dysgu ydych chi eisiau ei fenthyg** ⓖ

Fe delir unrhyw Fenthyciad Ffioedd Dysgu yn uniongyrchol i'ch prifysgol neu goleg.

☐ Rydych eisiau'r uchafswm sydd ar gael i chi

Os ydych chi eisiau llai na'r uchafswm sydd ar gael i chi, rhowch wybod i ni faint ydych chi eisiau ei fenthyca

£ ______ (rhowch swm)

**3.2** **Dywedwch wrthym faint o Fenthyciad Cynhaliaeth ydych chi eisiau ei fenthyg** ⓖ

Byddwn yn cyfrifo faint o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru allwch chi ei gael yn gyntaf, ac yna bydd gweddill eich cyllid i fyfyrwyr yn cael ei ddyfarnu fel Benthyciad Cynhaliaeth. Os byddwch yn gofyn am fwy o Fenthyciad Cynhaliaeth nag y mae gennych yr hawl i'w gael, byddwn yn dyfarnu'r swm is i chi.

☐ Rydych eisiau'r uchafswm sydd ar gael i chi

Os ydych chi eisiau llai na'r uchafswm sydd ar gael i chi, rhowch wybod i ni faint ydych chi eisiau ei fenthyca

£ ______ (rhowch swm)

**3.3** **Manylion cyswllt**

Rhaid i chi roi enw a chyfeiriad o leiaf un cyswllt. Os ydych chi'n darparu manylion dau gyswllt, dylai'r bobl rydych yn eu henwi fod yn byw mewn gwahanol gyfeiriadau a dim ond os byddwch, er enghraifft, yn symud cyfeiriad a ddim yn rhoi gwybod i ni, fyddwn ni'n cysylltu â nhw. Rhaid i chi roi gwybod i'r bobl hyn eich bod wedi eu henwi fel cysylltiadau.

| **Cyswllt 1** | **Cyswllt 2** |
| --- | --- |
| Enw(au) cyntaf | Enw(au) cyntaf |
| Cyfenw | Cyfenw |
| Perthynas â chi | Perthynas â chi |
| Cyfeiriad | Cyfeiriad |
| Cod Post | Cod Post |
| Rhif ffôn cartref | Rhif ffôn cartref |

## 4 Myfyrwyr dibynnol ac annibynnol

**Mae'r adran hon yn pennu os ydych yn fyfyriwr dibynnol neu annibynnol. Mae'n bwysig gan ei fod yn sefydlu incwm pwy mae angen i ni ei ystyried o'ch cartref cyn y gallwn gyfrifo eich hawl.**

**4.1** A fyddwch chi'n 25 oed neu'n hŷn ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs?

- ☐ **Na fyddaf**
- ☐ **Byddaf**

**4.2** A ydych chi wedi bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil ar unrhyw adeg cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd? (g) (t)

- ☐ **Nac ydw**
- ☐ **Ydw**

**4.3** A fyddwch yn gofalu am unigolyn dan 18 oed ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd? (g) (t)

- ☐ **Na fyddaf**
- ☐ **Byddaf**

Os ydych chi wedi ticio ateb cadarnhaol i unrhyw flychau yng nghwestiwn 4.1, 4.2 neu 4.3, **ewch i adran 5**

**4.4** Ticiwch y blwch perthnasol os oes unrhyw un o'r rhai dilynol yn berthnasol i chi

- ☐ Ni ellir dod o hyd i'ch rhieni neu nid yw'n rhesymol ymarferol i geisio cysylltu â nhw.
- ☐ Rydych wedi dieithrio'n anghymodlon oddi wrth (nid oes gennych unrhyw gyswllt â) eich rhieni ac ni fydd hyn yn newid. (g)
- ☐ Ar unrhyw adeg o 14 oed i ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, nid ydych wedi bod dan ofal cyfreithlon eich rhieni am 13 wythnos neu fwy, rydych wedi bod dan orchymyn gwarchodaeth arbennig neu rydych wedi bod yng nghystodaeth neu ofal cyfreithiol, neu wedi derbyn llety gan, Awdurdod Lleol am 13 wythnos neu fwy. (g)
- ☐ Mae eich dau riant wedi marw.
- ☐ Rydych wedi gwneud cais am gyllid i fyfyrwyr o'r blaen, ac mae'r rhiant a ddarparodd fanylion ei incwm wedi marw.
- ☐ Mae'ch rhieni yn byw tu allan i'r Deyrnas Unedig, Gibraltar neu'r Undeb Ewropeaidd a byddai asesiad oiu sefyllfa ariannol yn eu rhoi mewn perygl
- ☐ Mae'ch rheini yn byw tu allan i'r Deyrnas Unedig, Gibraltar neu'r Undeb Ewropeaidd ac ni fyddai'n rhesymol ymarferol na'n bosibl iddynt anfon arian i chi

**Os ydych chi wedi ticio unrhyw un o'r blychau uchod, byddwn yn cysylltu â chi am dystiolaeth ac, yn amodol i hyn, efallai y byddwch yn cael eich ystyried i fod yn annibynnol.**

Os ydych wedi ticio unrhyw rai o'r blychau uchod, **ewch i adran 5**

Os ydych chi wedi cael eich ystyried i fod yn annibynnol yn flaenorol oherwydd eich bod wedi cefnogi eich hun yn ariannol am gyfanswm o 3 blynedd neu fwy cyn dechrau blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs, byddwch yn dal i gael eich ystyried i fod yn annibynnol. Os yw hyn yn berthnasol i chi **ewch i adran 5**

# 5 Manylion ariannol y myfyriwr

**Os byddwch yn gadael unrhyw gwestiynau'n wag, ni fyddwn yn gallu prosesu eich cais.**
**Os nad yw cwestiwn penodol yn berthnasol i chi, nodwch 'Dim' neu 'Amh' fel yr ateb.**

## Incwm nas enillir

**5.1** Mae incwm **nas enillir** trethadwy yn unrhyw incwm a dderbyniwch gan un o'r ffynonellau canlynol:

- llog gros gan fanc neu gymdeithas adeiladu;
- eiddo, gosodiadau neu rent;
- difidendau neu fuddsoddiadau;
- ymddiriedolaethau neu nawdd; ac/neu
- unrhyw daliad arall a dderbyniwyd am fynychu'r cwrs.

Amcangyfrifwch gyfanswm yr incwm nas enillir trethadwy, cyn didyniadau, y disgwyliwch dderbyn ar gyfer y flwyddyn academaidd hon. ⓖ

£

Beth yw ffynhonnell yr incwm hwn?

## Taliadau gan gyflogwr

**5.2.1** A fydd eich cyflogwr yn eich rhyddhau i fynychu'ch cwrs yn y flwyddyn academaidd hon? ⓖ

☐ **Bydd** ☐ **Na fydd – ewch i 5.3**

Os 'Bydd', faint fydd eich cyflogwr yn eich talu am yr amser a dreulir yn mynychu'ch cwrs yn ystod y cyfnod hwn?

£

**5.2.2** Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, a fyddwch chi neu'ch cyflogwr yn talu unrhyw arian i gronfa pensiwn ar eich rhan?

☐ **Byddaf/Bydd** ☐ **Na fyddaf/fydd**

Os 'Byddaf/Bydd', faint yn ystod y cyfnod hwn?

£

## Plant dibynnol

**5.3** Rhowch fanylion unrhyw blant a fydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf ddibynnol arnoch yn ystod y flwyddyn academaidd hon.
Mae incwm eich plentyn yn cynnwys ei incwm o bob ffynhonnell wedi cyfraniadau Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23.

| Enw llawn y plentyn | Dyddiad geni ⓣ | Perthynas â chi | Gyda phwy fydd yn byw? | Incwm y plentyn ⓖ ⓣ |
|---|---|---|---|---|
| | **(DD MM BBBB)** | | | **(£)** |

# Manylion eich cyfrif banc neu'ch cymdeithas adeiladu yn y Deyrnas Unedig

**6.1 Manylion y cyfrif**

Cod didoli

☐☐ - ☐☐ - ☐☐

Rhif y cyfrif

☐☐☐☐☐☐☐☐

Rhif rhôl cymdeithas adeiladu (os yn berthnasol)

☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

**Dim ond i dalu eich Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ac/neu Fenthyciad Cynhaliaeth fyddwn ni'n defnyddio'r manylion banc. Fe delir ffioedd dysgu yn uniongyrchol i'ch prifysgol neu goleg.**

# 7 Cymorth Arbennig

**Os yw un o'r categorïau isod yn berthnasol, gallwch ymgeisio am Gymorth Arbennig.**

I ymgeisio am Gymorth Arbennig, ticiwch y blwch(blychau) sydd fwyaf perthnasol i chi. (g)
**Dylech anfon tystiolaeth gysylltiedig gyda'ch cais.** (t)

- ☐ Rwyf yn unig riant â phlentyn, neu berson ifanc dan 20 oed sydd mewn addysg amser llawn o dan lefel addysg uwch.
- ☐ Mae gennyf bartner sydd hefyd yn fyfyriwr amser llawn, ac mae un neu'r ddau ohonom yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc dan 20 oed sydd mewn addysg amser llawn islaw lefel addysg uwch.
- ☐ Mae gennyf anabledd, ac rwy'n gymwys i gael y Premiwm Anabledd neu'r Premiwm Anabledd Difrifol.
- ☐ Rwy'n fyddar ac rwy'n gymwys i gael Lwfans i Fyfyrwyr Anabl.
- ☐ Rwyf wedi cael fy nhrin fel rhywun na all weithio am gyfnod di-dor o 28 wythnos o leiaf.
- ☐ Mae gennyf anabledd ac rwy'n gymwys i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm.
- ☐ Rwyf yn disgwyl dychwelyd i gwrs ar ôl absenoldeb a ganiatawyd o'r cwrs hwnnw yn sgil salwch neu gyfrifoldeb gofalu sydd bellach wedi dod i ben.
- ☐ Rwyf yn 60 oed neu'n hŷn.
- ☐ Mae gennyf hawl i gael Budd-dal Tai neu elfen tai y Credyd Cynhwysol.
- ☐ Mae gennyf hawl i gael Taliad Annibyniaeth Bersonol.
- ☐ Mae gennyf hawl i gael Lwfans Byw i'r Anabl.
- ☐ Mae gennyf hawl i gael Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog.
- ☐ Nid yw unrhyw un o'r uchod yn berthnasol i mi.

! **Os nad yw'r un o'r categorïau uchod yn berthnasol i chi, ewch yn syth i adran 8. Am ragor o wybodaeth am Gymorth Arbennig, ewch i www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

## 8 Ynglŷn â'ch teulu

Ticiwch un o'r opsiynau canlynol:

☐ Rwy'n **fyfyriwr dibynnol** – ewch i gwestiwn **8.1.** ⓖ

☐ Rwy'n **fyfyriwr annibynnol gyda phartner**, darllenwch a llofnodwch y **telerau ac amodau** ar **dudalennau 14 a 15** ac yna rhowch y ffurflen hon i'ch partner i lenwi **adran 10.** ⓖ

☐ Rwy'n **fyfyriwr annibynnol sengl**, ewch i'r **telerau ac amodau** ar **dudalennau 14 a 15.**

**8.1** Gyda pha riant ydych chi'n byw fel arfer, neu mae gennych fwyaf o gyswllt ag o?

☐ Mam ☐ Tad **neu** ☐ Y ddau riant ☐ Amh

**8.2** Beth yw statws perthynas presennol y rhiant hwn? ⓖ

☐ Sengl
☐ Yn byw gyda phartner
☐ Priod/partneriaeth sifil
☐ Wedi gwahanu
☐ Wedi ysgaru/partneriaeth sifil wedi'i diddymu
☐ Gŵr/gwraig weddw/partner sifil sy'n fyw

**8.2.1** A yw eich rhieni wedi ysgaru, gwahanu, bod mewn partneriaeth sifil sydd wedi diddymu ers dechrau eich cwrs? ⓖ ⓣ

☐ **Do**
☐ **Naddo**

**Beth sydd angen i chi ei wneud nesaf**

Darllenwch a llofnodwch y **amodau a thelerau** ar **dudalennau 14 a 15** ac yna pasio'r ffurflen hon ymlaen at eich rhiant neu rieni.

**Beth sydd angen i'ch rhiant neu rieni ei wneud nesaf**

Dylai'r rhiant neu rieni yr ydych yn byw gyda nhw fel arfer lenwi **adran 10**.

Os yw'r rhiant a nodir yn **8.1** yn briod, mewn partneriaeth sifil neu'n byw gyda phartner, rhaid i'w partner hefyd gwblhau **adran 10**.

# Amodau a Thelerau

Mae'r telerau ac amodau ("telerau") hyn a deddfwriaeth berthnasol yn weithredol o ran yr holl gyllid i fyfyrwyr sydd ar gael i fyfyrwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024/25.

Rwy'n deall bod yn rhaid i mi ddarllen y telerau penodol ynghylch cynnyrch cyllid i fyfyrwyr ar gael oherwydd y byddant yn effeithio arnaf os byddaf yn ymgeisio amdanynt ar unrhyw adeg yn y flwyddyn academaidd hon.

**Contract y Benthyciad**

1. Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y telerau hyn a bod Canllaw i Amodau a Thelerau ar gael ar www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/telerau-ac-amodau
2. Rwy'n cadarnhau fod yr wybodaeth rwyf wedi ei darparu, hyd eithaf fy ngwybodaeth a chred, yn wir a chyflawn. Os nad yw, rwy'n deall ei bod yn bosibl na fyddaf yn derbyn cyllid i fyfyrwyr, y bydd unrhyw gefnogaeth yr wyf wedi ei chael yn cael ei thynnu yn ôl ac y gellir fy erlyn.
3. Rwy'n deall fod cyllid i fyfyrwyr yn cael ei ddarparu i mi gan Weinidogion Cymru (y "Rhoddwr Benthyciadau") sy'n cynnwys unrhyw bersonau yn gweithredu ar eu rhan ac unrhyw amnewidiad(au) dan adran 23(4) Deddf Addysg Uwch 1998 fel y'i diwygiwyd neu amnewidiwyd o bryd i'w gilydd (y "Ddeddf").
4. Rwy'n deall y bydd y telerau hyn, y Ddeddf a'r rheoliadau a wneir dan adran 22 y Ddeddf yn berthnasol i unrhyw gyllid i fyfyrwyr a roddir mi gan y Rhoddwr Benthyciadau.
5. Rwy'n deall bod "cyllid i fyfyrwyr" yn y telerau hyn yn golygu cefnogaeth ariannol trwy grant(iau) ac/neu fenthyciad(au) a wneir gan y Rhoddwr Benthyciadau dan y rheoliadau.
6. Rwy'n deall bod y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ("SLC") yn cyflawni swyddogaethau penodol ar ran y Rhoddwr Benthyciadau.

**Fy Ymrwymiadau**

7. Rwy'ndeall os ydw i:
   (i) wedi cyrraedd 18 oed; ac
   (ii) fy mod wedi mynd i gytundeb(au) am fenthyciad dan adran 22 y Ddeddf cyn i mi gyrraedd 18 oed,

   fy mod yn cytuno i "ddilysu" unrhyw a phob benthyciad myfyriwr trwy lofnodi'r telerau hyn. Mae hyn yn golygu fy mod yn cadarnhau fy mod wedi mynd i gytundeb(au) gyda'r Rhoddwr Benthyciadau ac yn cytuno i delerau unrhyw gytundeb(au) blaenorol o'r fath. Os ydw i wedi cyrraedd 18 oed ac yn gwrthod "dilysu" unrhyw gytundeb(au) blaenorol, rwy'n deall na fyddaf yn gymwys i gael unrhyw gyllid i fyfyrwyr pellach dan y rheoliadau.
8. Rwy'n cytuno i roi unrhyw wybodaeth i SLC y bydd angen i gefnogi'r cais yma am gyllid i fyfyrwyr ac/neu i gasglu ad-daliad.
9. Rwy'n cytuno i roi gwybod i SLC ar unwaith s bydd fy amgylchiadau'n newid mewn unrhyw fodd a allai effeithio ar fy hawl i gyllid i fyfyrwyr. Os na fyddaf yn gwneud hyn deallaf na fyddaf efallai yn cael taliadau pellach a bod posibilrwydd y bydd yn rhaid i mi ad-dalu'r cyllid i fyfyrwyr yr ydw i eisoes wedi'i gael. Rwy'n cytuno o'r dyddiad y byddaf yn cyflwyno fy nghais am gyllid i fyfyrwyr nes bydd fy menthyciad(au), ynghyd â'r holl ac unrhyw log, cosbau a thaliadau sy'n berthnasol, yn cael ei ad-dalu yn llawn, bod yn rhaid i mi hysbysu SLC am unrhyw newidiadau yn fy manylion personol (gan gynnwys fy rhif Yswiriant Gwladol) a'r manylion cyswllt a roddais.
10. Rwy'n cytuno os byddaf yn cael gordaliad o gyllid i fyfyrwyr, mae angen i mi ei ad-dalu'n llawn ac y gellir casglu unrhyw ordaliad o unrhyw gais pellach am gyllid i fyfyrwyr.
11. Rwy'n cytuno y byddaf yn ad-dalu'r Rhoddwr Benthyciadau unrhyw fenthyciad(au), ynghyd â phob ac unrhyw log, gosbau a thaliadau sy'n berthnasol. Rwy'n deall y bydd yr ad-daliad hwn yn ddyledus gennyf fi i'r Rhoddwr Benthyciadau fel dyled. Os byddaf yn torri unrhyw un o delerau fy menthyciad, rwy'n cytuno i dalu unrhyw gostau a chosbau perthnasol dan y Ddeddf a'r rheoliadau. Rwy'n deall y byddaf yn ad-dalu fy menthyciad(au) trwy system dreth y Deyrnas Unedig ("DU") ac/neu y gallaf ad-dalu SLC yn uniongyrchol. Os ydw i'n byw dramor, byddaf yn ad-dalu fy menthyciad(au) i SLC yn uniongyrchol.
12. Rwy'n cytuno fod unrhyw fenthyciad(au) a wneir i mi yn unol â'r rheoliadau unwaith y derbynnir fy nghais gan y Rhoddwr Benthyciadau yn gytundeb(au) rhyngof fi a'r Rhoddwr Benthyciadau. Rwy'n deall fy mod yn atebol ar gyfer fy menthyciad(au) ac y codir llog arnaf o daliad cyntaf y benthyciad gan y Rhoddwr Benthyciadau.
13. Rwy'n cytuno i roi gwybod i SLC os byddaf yn gadael y DU i fyw tu allan i'r DU neu os am ba bynnag reswm arall y byddaf tu allan i system dreth y DU am fwy na thri mis.

**Camau Cyfreithiol a Deddfau Perthnasol**

14. Os bydd galw am unrhyw achos cyfreithiol, rwy'n cytuno mai deddfau Cymru a Lloegr fydd yn weithredol ac y bydd y llysoedd yn y rhan honno o'r DU yn clywed unrhyw achos cyfreithiol. Os yw fy nghyfeiriad tu allan i'r DU, bydd deddfau'r rhan o'r DU ble mae fy narparwr addysg wedi ei leoli yn berthnasol a bydd y llysoedd yn y rhan honno o'r DU yn clywed unrhyw achos cyfreithiol. Rwy'n cytuno bod gan y Rhoddwr Benthyciadau'r hawl i gymryd camau cyfreithiol yn fy erbyn mewn unrhyw lys arall gydag awdurdod.

**Rhannu Gwybodaeth**

15. Os ydw i'n torri'r telerau hyn ac/neu'r rheoliadau, rwy'n cytuno y gall y Rhoddwr Benthyciadau rannu gwybodaeth amdanaf a fy nghyfrif gydag unrhyw drydydd parti yn cynnwys y llywodraeth neu asiantaeth llywodraeth gwlad arall, allai helpu fy lleoli ac/neu helpu gweithredu i adfer unrhyw daliadau sy'n ddyledus.
16. Rwy'n cadarnhau ble rwyf wedi darparu unrhyw wybodaeth bersonol ynghylch unrhyw berson arall yn fy nghais am gyllid i fyfyrwyr, fy mod wedi gwneud hynny gyda'i ganiatâd neu ei chaniatâd.
17. Rwy'n deall y bydd SLC yn prosesu fy nata personol yn unol â'r hysbysiad preifatrwydd sydd ar gael ar www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/hysbyseb-preifatrwydd a allai gael ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd.

**Lwfans i Fyfyrwyr Anabl ("DSA")**

Mae'r adran hon yn berthnasol os byddaf yn ymgeisio am DSA yn y flwyddyn academaidd hon.

18. Rwy'n deall y bydd rhaid defnyddio unrhyw offer a dderbyniaf trwy Lwfans i Fyfyriwr Anabl ar gyfer fy nghwrs astudiaeth a fy mod yn gyfrifol am dalu unrhyw gostau atgyweirio.
19. Rwy'n deall os byddaf yn cydsynio i SLC ddarparu ffynhonnell fy offer a chefnogaeth, y gall SLC dalu cyflenwyr unrhyw offer cymeradwy yn uniongyrchol.
20. Rwy'n deall gyda fy nghydsyniad, y gall SLC wneud taliadau i'r ganolfan asesu anghenion ar fy rhan.
21. Rwy'n deall gyda fy nghydsyniad y gall SLC wneud taliad uniongyrchol ar fy rhan i drydydd partïon yn darparu unrhyw wasanaeth neu gefnogaeth gymeradwy arall i mi.
22. Os nad ydw i'n cytuno i SLC dalu cyflenwyr offer, cefnogaeth neu wasanaethau eraill ar fy rhan, rwy'n deall y byddaf yn gyfrifol am ddiwallu costau unrhyw offer, cefnogaeth neu wasanaethau cymeradwy eraill gan ddefnyddio fy lwfans DSA. Mae SLC yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth fy mod wedi derbyn offer, cefnogaeth neu wasanaethau eraill parthed fy DSA.

**Grant Gofal Plant ("CCG")**

Mae'r adran hon yn berthnasol os byddaf yn ymgeisio am CCG yn y flwyddyn academaidd hon.

23. Os na fyddaf yn darparu tystiolaeth o'r costau gofal plant o fewn yr amserlenni a bennwyd, deallaf y byddaf o bosibl yn colli fy hawl. Os yw fy nghostau gofal plant yn wahanol i'r amcangyfrifon a ddarparwyd gennyf, gallai taliadau pellach fy CCG gynyddu neu leihau yn unol â hynny. Os nad oes taliadau CCG pellach yn ddyledus i'w talu i mi, gallaf fod yn atebol i ad-dalu unrhyw wahaniaeth.
24. Os na fyddaf yn manteisio ar y gofal plant neu os byddaf yn penderfynu defnyddio darparwr gofal plant nad yw'n gofrestredig neu wedi'i gymeradwyo, deallaf y bydd yn rhaid i mi ad-dalu unrhyw ordaliad.
25. Rwy'n cadarnhau nad ydw i na fy ngŵr, gwraig, partner sifil neu bartner sy'n cydfyw wedi dewis derbyn cefnogaeth ar gyfer gofal plant o:
    (i) elfen gofal plant Credyd Treth Gwaith;
    (ii) elfen gofal plant Credyd Cynhwysol;
    (iii) Gofal Plant Di-dreth; ac/neu
    (iv) Lwfans Gofal Plant Bwrsariaeth y GIG;

    ac rwy'n cytuno i ddweud wrth yr SLC ar unwaith os byddaf fi neu fy ngŵr, gwraig, partner sifil neu bartner sy'n cydfyw yn derbyn y gefnogaeth hon. Rwy'n deall y gallai SLC rannu fy nata personol gyda HMRC i wirio a ydw i'n cael cefnogaeth gofal plant.

Eich enw llawn (mewn PRIFLYTHRENNAU)

Eich llofnod

x

Dyddiad heddiw

Dydd / Mis / Blwyddyn

# 10 Manylion ariannol ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23 i rieni a phartneriaid

## Sut i gwblhau'r adran hon

**Os ydych yn rhiant sengl i'r myfyriwr**
Rhowch eich gwybodaeth fel Unigolyn 1, gadewch Unigolyn 2 yn wag.

**Os oes dau riant yn byw yng nghartref y myfyriwr**
Llenwch yr adran hon gyda gwybodaeth ar gyfer Unigolyn 1 ac Unigolyn 2.

**Os ydych chi'n bartner i fyfyriwr annibynnol**
Rhowch eich gwybodaeth fel Person 1, gadewch Berson 2 yn wag.

## Defnyddiwch y nodiadau ategol i atal unrhyw oedi i'r cais

g

Ble byddwch yn gweld yr eicon yma, mae'n golygu fod yna wybodaeth atodol yn y Nodiadau Ategol fydd yn eich helpu i gwblhau eich cais cefnogaeth.

Gallai hyn fod yn wybodaeth am sut i ateb cwestiwn neu adran neu gyfarwyddyd i anfon dogfennau ategol penodol.

Darllenwch y nodiadau – os na fyddwch chi'n ateb cwestiwn neu adran yn gywir neu os na fyddwch chi'n cynnwys y dogfennau rydym eu hangen, bydd yn achosi oedi gyda chais y myfyriwr.

## Pa fanylion sydd angen i mi ei darparu?

Bydd angen i chi ddarparu:

- eich manylion personol, fel eich enw a chyfeiriad;
- eich rhif Yswiriant Gwladol (YG) (os oes gennych chi un);
- manylion unrhyw incwm o'r DU neu dramor ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23 nad yw Cyllid a Thollau EF (CThEF) yn gwybod amdanynt;
- manylion unrhyw daliadau pensiwn a wnaethoch ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23; a
- manylion unrhyw ddibynyddion eraill.

## Pam fod angen i mi ddweud wrthych beth yw fy incwm o flwyddyn dreth 2022-23?

Rydyn ni'n defnyddio ffigurau o'r flwyddyn dreth hon gan mai dyma'r wybodaeth ddiweddaraf sydd gan CThEF ar eich cyfer.

Rhaid i chi roi gwybod i ni am fanylion eich incwm yn 2022-23 gan na allwn dderbyn symiau o unrhyw flwyddyn dreth arall. Mae hyn yn sicrhau y bydd y myfyriwr (neu fyfyrwyr) yr ydych chi'n cefnogi yn derbyn popeth y mae ganddo/ganddi hawl iddo.

## Beth fydd yn digwydd os yw fy incwm wedi gostwng ers blwyddyn dreth 2022-23?

Os disgwylir neu os yw incwm eich cartref wedi gostwng gan o leiaf 15% ers blwyddyn dreth 2022-23, gallwch wneud cais am asesiad incwm y flwyddyn gyfredol. Mae hyn yn golygu y byddem yn asesu'r myfyriwr ar gyfer cyllid yn seiliedig ar eich incwm amcangyfrifedig ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25.

Mae'n rhaid i chi lenwi'r ffurflen hon o hyd ond gallwch ddarparu ffigur incwm mwy cyfredol yn ddiweddarach er mwyn sicrhau bod y myfyriwr yn cael y swm cywir. Darllenwch dudalen 12 y nodiadau ategol i gael gwybodaeth am sut i wneud cais am asesiad incwm y flwyddyn gyfredol.

# 10 Manylion ariannol ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23 i rieni a phartneriaid

## Gwybodaeth ychwanegol

I gael gwybod sut fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth a roddwch, ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/e-breifatrwydd** i ddarllen ein Hysbysiad Preifatrwydd cyn cwblhau'r ffurflen hon.

## Os oes gennych gwestiynau pellach gallwch:

- ddarllen y nodiadau ategol
- droi at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

## Rhan A – Eich manylion personol

| **Unigolyn 1** | **Unigolyn 2** |
|---|---|
| Eich Cyfeirnod Cwsmer (Os oes gennych un) | Eich Cyfeirnod Cwsmer (Os oes gennych un) |
| | |
| Perthynas â'r myfyriwr | Perthynas â'r myfyriwr |
| | hfkhf |
| Teitl | Teitl |
| | dsgds |
| Enw(au) cyntaf | Enw(au) cyntaf |
| | |
| Cyfenw | Cyfenw |
| | |
| Unrhyw enwau blaenorol a ddefnyddiwyd i'ch adnabod | Unrhyw enwau blaenorol a ddefnyddiwyd i'ch adnabod |
| | |
| Rhyw | Rhyw |
| ☐ Gwryw ☐ Benyw | ☐ Gwryw ☐ Benyw |

## 10 Manylion ariannol ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23 i rieni a phartneriaid

| Unigolyn 1 | Unigolyn 2 |
|---|---|
| Beth yw'ch statws priodasol presennol? | Beth yw'ch statws priodasol presennol? |
| ☐ Priod/mewn partneriaeth sifil | ☐ Priod/mewn partneriaeth sifil |
| ☐ Wedi ysgaru/partneriaeth sifil wedi'i diddymu ⓖ | ☐ Wedi ysgaru/partneriaeth sifil wedi'i diddymu ⓖ |
| ☐ Yn byw gyda phartner | ☐ Yn byw gyda phartner |
| ☐ Wedi gwahanu ⓖ | ☐ Wedi gwahanu ⓖ |
| ☐ Gwr neu wraig gweddw/partner sifil sy'n fyw ⓖ | ☐ Gwr neu wraig gweddw/partner sifil sy'n fyw ⓖ |
| ☐ Sengl | ☐ Sengl |
| Iaith ohebu ddewisol | Iaith ohebu ddewisol |
| ☐ Cymraeg ☐ Saesneg | ☐ Cymraeg ☐ Saesneg |
| Dyddiad geni ☐☐/☐☐/☐☐☐☐ | Dyddiad geni ☐☐/☐☐/☐☐☐☐ |
| Man geni (enw'r dref neu bentref yn union fel y mae'n ymddangos ar eich tystysgrif geni neu basbort) | Man geni (enw'r dref neu bentref yn union fel y mae'n ymddangos ar eich tystysgrif geni neu basbort) |
| Cyfeiriad cyswllt<br>Cod post | Cyfeiriad cyswllt<br>Cod post |
| Rhif ffôn cyswllt | Rhif ffôn cyswllt |
| Cyfeiriad e-bost | Cyfeiriad e-bost |

Ni fydd yn rhaid i chi ddatgelu eich gwybodaeth ariannol i'r myfyriwr.

Os hoffech ei darparu ar wahân, gallwch lawrlwytho Asesiad o Amgylchiadau Ariannol – Blwyddyn Academaidd 2024/25 o: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** a'i dychwelyd atom.

Neu, gallwn anfon y ffurflen atoch os byddwch yn ticio'r blwch hwn:

| Unigolyn 1 | Unigolyn 2 |
|---|---|
| ☐ **Anfonwch ffurflen ar wahân ataf** | ☐ **Anfonwch ffurflen ar wahân ataf** |

## 10 Manylion ariannol ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23 i rieni a phartneriaid

### Rhan B – Rhannu data a chi

**Os oes gennych rif Yswiriant Gwladol (YG)** rhaid i chi ei roi isod. Byddwn yn defnyddio eich rhif YG i wirio eich incwm ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23 gyda Chyllid a Thollau EF (CThEF). Mae hyn yn ein galluogi i gael y wybodaeth ariannol fwyaf cywir.
**Os nad oes gennych rif YG** yna bydd angen tystiolaeth lawn o'ch manylion ariannol ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23. ⓖ

| | Person 1 | Person 2 |
|---|---|---|
| **C1** • Oes gennych chi Rif Yswiriant Gwladol? | ☐ Oes ☐ Nac oes - ewch i C6 | ☐ Oes ☐ Nac oes - ewch i C6 |
| Rhowch eich rhif YG: | ☐☐-☐☐☐☐☐☐-☐ ewch i C2 | ☐☐-☐☐☐☐☐☐-☐ ewch i C2 |
| **C2** • A wnaethoch chi lenwi ffurflen dreth hunanasesu yn y DU ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23? | ☐ **Do** - ewch i C3<br>☐ **Naddo** - ewch i C5 | ☐ **Do** - ewch i C3<br>☐ **Naddo** - ewch i C5 |
| **C3** A gawsoch chi unrhyw incwm yn y DU a oedd o dan drothwy treth? | ☐ **Do** - ewch i Rhan C<br>☐ **Naddo** - ewch i C4 | ☐ **Do** - ewch i Rhan C<br>☐ **Naddo** - ewch i C4 |
| **C4** A gawsoch chi unrhyw incwm ym mlwyddyn dreth 2022-23 o dramor na chafodd ei ddatgan i CThEF? | ☐ **Do** - ewch i Rhan D<br>☐ **Naddo** - ewch i Rhan E | ☐ **Do** - ewch i Rhan D<br>☐ **Naddo** - ewch i Rhan E |
| **C5** Bydd CThEF yn dweud wrthym am unrhyw incwm a gawsoch o gyflogaeth, budd-daliadau ac/neu bensiynau. A dderbynioch unrhyw incwm arall? | ☐ **Do** - ewch i Rhan D<br>☐ **Naddo** - ewch i Rhan E | ☐ **Do** - ewch i Rhan D<br>☐ **Naddo** - ewch i Rhan E |
| **C6** A gawsoch unrhyw incwm yn ystod blwyddyn dreth 2022-23? | ☐ **Do** - ewch i Rhan C<br>☐ **Naddo** - ewch i Rhan E | ☐ **Do** - ewch i Rhan C<br>☐ **Naddo** - ewch i Rhan E |

# 10 Manylion ariannol ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23 i rieni a phartneriaid

## Rhan C - Incwm arall yn y DU

**Cyfarwyddiadau**

- Rhowch fanylion ariannol y flwyddyn dreth o **6 Ebrill 2022 i 5 Ebrill 2023**.
- Atebwch ‘Do’ neu ‘Naddo’ i gwestiwn C1, os atebwch ‘Do’ rhowch swm yr incwm.
- Os atebwch ‘Naddo’ i gwestiwn C1, mae hyn yn golygu eich bod yn dweud wrthym na dderbynioch unrhyw incwm o’r math hwnnw o incwm ym mlwyddyn dreth 2022-23.

! **Er efallai nad ydych wedi datgan incwm i CThEF gan ei fod yn is na’r trothwy trethadwy, mae angen datgan hwn a bydd yn cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo hawl y myfyriwr.**

| **Manylion ariannol** | Person 1 | Person 2 |
|---|---|---|
| **C1** A gawsoch chi unrhyw incwm yn y DU nad yw CThEF yn gwybod amdano? ⓖ | ☐ Do ☐ Naddo - ewch i C2 | ☐ Do ☐ Naddo - ewch i C2 |
| **a** Cyfanswm incwm o gynilion a budsoddiadau<br>Rhowch wybod i ni am swm y llog/incwm a gawsoch o gynilion a buddsoddiadau yn ystod blwyddyn dreth 2022-23 yn unig, nid swm gwirioneddol y cynilion neu’r symiau a fuddsoddwyd oedd gennych. | | £ |
| **b** Cyfanswm incwm o osod eiddo, tir neu rent<br>Mae hyn yn cynnwys y Cynllun Rhentu Ystafell. | | £ |
| **c** Cyfanswm incwm o enillion achlysurol/llawrydd<br>Mae hyn yn cynnwys unrhyw ffynonellau incwm atodol. | | £ |
| **C2** A gawsoch chi unrhyw incwm o dramor nad ydych wedi dweud wrth CThEF amdano eisoes? | ☐ **Do** - ewch i Rhan D<br>☐ **Naddo** - ewch i Rhan E | ☐ **Do** - ewch i Rhan D<br>☐ **Naddo** - ewch i Rhan E |

## 10 Manylion ariannol ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23 i rieni a phartneriaid

### Rhan D – Incwm tramor ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23

**Cyfarwyddiadau**

- Rhowch eich manylion ariannol ar gyfer y flwyddyn dreth o **6 Ebrill 2022 i 5 Ebrill 2023.**
- Nodwch eich incwm yn yr arian cyfred y cawsoch eich talu ynddo, nid oes angen i chi ei drosi.

! **Bydd angen i chi anfon tystiolaeth o unrhyw incwm a ddatganwyd yn yr adran hon gan nad yw CThEF yn ymwybodol ohono.**

| Manylion ariannol | Person 1 | Person 2 |
|---|---|---|
| **C1** A gawsoch chi unrhyw incwm o dramor o'r ffynonellau canlynol: (g) | ☐ **Naddo** - ewch i Rhan E<br>☐ Do | ☐ **Naddo** - ewch i Rhan E<br>☐ Do |
| **a** Incwm o gyflogaeth neu hunangyflogaeth<br>Os ydych eisoes wedi rhoi gwybod i CThEF am yr incwm hwn, ni ddylech ei nodi yma. | | |
| **b** Incwm o fudd-daliadau trethadwy'r wladwriaeth | | |
| **c** Incwm o bensiwn(au) galwedigaethol, preifat<br>Os byddwch chi'n derbyn pensiwn cyfandaliad, dim ond y swm a dderbynioch y gwnaethoch dalu treth arno ddylech chi ddatgan. | | |
| **d** Unrhyw incwm arall<br>Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys incwm o:<br>cynilion a buddsoddiadau;<br>gosod eiddo, tir neu rent; neu<br>enillion llawrydd achlysurol.<br>Nid yw hon yn rhestr gyflawn, efallai y bydd gennych incwm arall. | | |
| **e** Cyfanswm incwm tramor nad yw CThEF yn gwybod amdano?<br>Rhowch gyfanswm y symiau a ddatganwyd yng nghwestiynau a i d i roi cyfanswm. | | |
| **C2** Os na thalwyd eich incwm yn C1 mewn punnoedd sterling, ym mha arian cyfred y cafodd ei dalu? | | |

# 10 Manylion ariannol ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23 i rieni a phartneriaid

## Rhan E – Didyniadau incwm

**Cyfarwyddiadau**

- Rhowch eich manylion ariannol ar gyfer y flwyddyn dreth o **6 Ebrill 2022 i 5 Ebrill 2023.**
- Atebwch 'Do' neu 'Naddo' i gwestiynau C1 ac C2, os atebwch 'Do' rhowch y swm.

**Bydd unrhyw ddidyniadau a ddatgenir yn adran 5 yn lleihau ffigur incwm eich cartref wrth gyfrifo hawl y myfyriwr(myfyrwyr) (cyn belled ag y darperir tystiolaeth).**

| | Person 1 | Person 2 |
|---|---|---|
| **C1** A wnaethoch chi dalu unrhyw gyfraniadau pensiwn preifat? ⓖ | ☐ Do ☐ Naddo - ewch i C2 | ☐ Do ☐ Naddo - ewch i C2 |
| Cyfanswm a daloch | £ | £ |
| **C2** A wnaethoch chi dalu unrhyw Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVCs)? ⓖ | ☐ Do ☐ Naddo - ewch i Rhan F | ☐ Do ☐ Naddo - ewch i Rhan F |
| Cyfanswm a daloch | £ | £ |

## Rhan F – Eich dibynyddion – nad ydynt mewn addysg bellach nac addysg uwch incwmv

Nodwch unrhyw blant a fydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf gyfrifol arnoch chi'n ariannol.

**C1** Plant dibynnol nad ydynt mewn addysg bellach neu uwch yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25 ⓖ

Peidiwch â chynnwys unrhyw ddibynyddion mewn addysg bellach neu addysg uwch yn C1. Dylid rhoi eu manylion yn C2. Cynhwyswch incwm heb ei ennill ar gyfer pob dibynnydd.

Os oes gennych chi fwy na 2 o blant ac angen mwy o le, defnyddiwch yr adran nodiadau ychwanegol ar dudalen 28.

| Enw Llawn | Enw Llawn |
|---|---|
| | |
| Dyddiad geni (DDMMBBBB) | Dyddiad geni (DDMMBBBB) |
| ☐☐☐☐☐☐☐☐ | ☐☐☐☐☐☐☐☐ |
| Incwm ar gyfer y flwyddyn | Incwm ar gyfer y flwyddyn |
| | |

### C2 Plant dibynnol mewn addysg bellach neu uwch yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25

Peidiwch â chynnwys y myfyriwr wrth gwblhau’r cwestiwn hwn.

Os mai’r myfyriwr yw eich partner, cynhwyswch unrhyw blant a enwyd ganddynt yn eu cais am gyllid i fyfyrwyr os yw’r plant wedi gwneud cais am gyllid i fyfyrwyr.

Os oes gennych chi fwy na 2 o blant ac angen mwy o le, defnyddiwch yr adran nodiadau ychwanegol ar dudalen 28.

| | |
|---|---|
| Enw llawn | Enw llawn |
| Dyddiad geni (DDMMBBBB) ☐☐☐☐☐☐☐☐ | Dyddiad geni (DDMMBBBB) ☐☐☐☐☐☐☐☐ |
| Ysgol, coleg neu brifysgol | Ysgol, coleg neu brifysgol |
| Cwrs | Cwrs |
| A yw’n derbyn cymorth ariannol? Os felly, gan ba awdurdod neu sefydliad? | A yw’n derbyn cymorth ariannol? Os felly, gan ba awdurdod neu sefydliad? |
| A ydych chi eisiau cefnogi cais y myfyriwr hwn am gyllid i fyfyrwyr? | A ydych chi eisiau cefnogi cais y myfyriwr hwn am gyllid i fyfyrwyr? |
| ☐ Ydw ☐ Nac ydw | ☐ Ydw ☐ Nac ydw |

## Datganiad ar gyfer rheini a phartneriaid

**Efallai y bydd y cais hwn am gymorth ariannol yn cael ei ohirio oni bai eich bod yn llofnodi a dyddio'r datganiad hwn.**

- Rwy'n cadarnhau fod yr wybodaeth rwyf wedi ei darparu, hyd eithaf fy ngwybodaeth a chred, yn wir a chyflawn. Os nad yw, rwy'n deall y gallai'r myfyriwr (neu fyfyrwyr) yr wyf yn ei gefnogi golli ei gymorth ac y gellir fy erlyn.
- Rwy'n cytuno i ddarparu unrhyw wybodaeth bellach parthed cais yr ymgeisydd am gymorth ariannol y gallai'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyf ofyn amdani ac yn cytuno i roi gwybod iddynt ar unwaith os bydd fy amgylchiadau yn newid mewn unrhyw fodd a allai effeithio ar y cais hwn am gymorth ariannol.

| **Unigolyn 1** | **Unigolyn 2** |
|---|---|
| Eich enw llawn (mewn PRIFLYTHRENNAU) | Eich enw llawn (mewn PRIFLYTHRENNAU) |
| | |
| Eich llofnod | Eich llofnod |
| **X** | **X** |
| Dyddiad heddiw | Dyddiad heddiw |
| Dydd ☐☐ / Mis ☐☐ / Blwyddyn ☐☐☐☐ | Dydd ☐☐ / Mis ☐☐ / Blwyddyn ☐☐☐☐ |

### Dychwelyd y ffurflen

I sicrhau fod y myfyriwr yn derbyn y taliad cyntaf ar ddechrau'r tymor, dylid dychwelyd y ffurflen hon gyda'r holl dystiolaeth fyddwn ei hangen erbyn cyn gynted â phosibl. Os dychwelir y ffurflen gais fwy na naw mis wedi dechrau'r flwyddyn academaidd, ni fydd yn cael ei phrosesu, ac fe all y myfyriwr golli ei hawl llawn i gyllid i fyfyrwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd hon.

**! Nawr pasiwch y ffurflen hon yn ôl i'r myfyriwr.**

## 11 Cwestiynau gwirfoddol

**Mae'r cwestiynau canlynol yn gwestiynau gwirfoddol – nid oes yn rhaid i chi eu hateb. Ni fydd p'un a ydych yn ateb neu beidio yn effeithio ar ein hasesiad o'ch hawl i gyllid i fyfyrwyr.**

Os atebwch chi'r cwestiynau canlynol, fe ddefnyddir yr wybodaeth i helpu Gweinidogion Cymru i ddatblygu eu polisïau yn y dyfodol.

**C1** **A oes gan unrhyw un o'ch rheini gymwysterau addysg uwch, er enghraifft graddau a diplomâu neu dystysgrifau addysg uwch?**

Mae hyn yn cynnwys eich rhieni naturiol, eich rhieni mabwysiadol, eich llys-rieni, partneriaid eich rhieni a'ch gwarchodwyr.

- ☐ Nac oes
- ☐ Oes
- ☐ Ddim yn gwybod

**C2** **Sut fyddech chi'n disgrifio eich tarddiad ethnig?**

**Gwyn**

- ☐ Prydeinig
- ☐ Gwyddelig
- ☐ Unrhyw gefndir gwyn arall

**Du neu Ddu Prydeinig**

- ☐ Affricanaidd
- ☐ Caribïaidd
- ☐ Unrhyw gefndir du arall

**Cymysg**

- ☐ Gwyn a du Caribïaidd
- ☐ Gwyn a du Affricanaidd
- ☐ Gwyn ac Asiaidd
- ☐ Unrhyw gefndir cymysg arall

**Tsieineaidd neu grŵp ethnig arall**

- ☐ Tsieineaidd
- ☐ Unrhyw arall

**Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig**

- ☐ Indiaidd
- ☐ Pacistanaidd
- ☐ Bangladeshaidd
- ☐ Unrhyw gefndir Asiaidd arall

## Rhestr wirio

### Cyn i chi anfon eich ffurflen, sicrhewch eich bod wedi:

☐ **Cynnwys yr holl ddogfennau rydym wedi gofyn amdanynt i gefnogi eich cais**

Os na fyddwn yn derbyn yr holl wybodaeth rydym angen bydd eich cais yn cael ei oedi.



☐ **Wedi darllen, llofnodi a dyddio'r amodau a thelerau ar dudalennau 14 a 15**

Os na fyddwch chi'n llofnodi'r amodau a thelerau, ni allwn roi benthyciad ac/neu grant i chi.



Dychwelwch eich ffurflen wedi ei chwblhau at:

**Cyllid Myfyrwyr Cymru**
**Blwch Post 211**
**Cyffordd Llandudno**
**LL30 9FU**

Sicrhewch fod eich cais wedi ei gwblhau a'r holl dystiolaeth yn cael eu pwyso ac y telir y costau postio llawn.

**Cofiwch ofyn am brawf postio!**

# Nodiadau ychwanegol

# Rhoi caniatâd i rywun gysylltu â ni ar eich rhan

Os hoffech roi caniatâd i berson enwebedig siarad â ni am eich cyfrif, gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon i sefydlu Caniatâd i Rannu (CTS) ar eu cyfer.

Gallai person enwebedig fod yn:

berson unigol fel eich rhiant, rhiant maeth, brawd neu chwaer neu bartner; neu

cynghorydd prifysgol/coleg neu gynghorydd trydydd parti. Gallai cynghorydd trydydd parti fod yn weithiwr cymdeithasol, cynghorydd personol neu gynghorydd elusen (o sefydliadau fel WeBelong, Become neu StandAlone).

## Beth sydd angen i'ch unigolyn enwebedig ei wybod

Pan fydd yn ein ffonio, bydd angen i'r unigolyn basio ein dilysiad diogelwch gan ddefnyddio'r manylion a roddwch ar y ffurflen hon. Bydd yn gallu trafod a gofyn am:

unrhyw wybodaeth am eich cyfrif, ac eithrio eich manylion banc

statws eich cais ac unrhyw dystiolaeth sydd ei hangen arnom

gohebiaeth a anfonwyd atoch neu ffurflenni cais ar eich rhan

## Beth sydd angen i mi ei wneud?

**Adran A -** Cwblhewch hwn os ydych am roi caniatâd i berson unigol.

**Adran B -** Cwblhewch hwn os ydych am roi caniatâd i gynghorydd prifysgol/coleg neu gynghorydd trydydd parti.

Gallwch sefydlu CTS ar gyfer unigolyn unigol a chynghorydd gan ddefnyddio'r un cod mynediad.

Os caiff unrhyw fanylion ar y ffurflen hon eu hepgor, ni allwn sefydlu CTS.

Unwaith y byddwch wedi llenwi'r ffurflen hon, a fyddech cystal â'i dychwelyd gyda'ch ffurflen gais.

## A oes ffordd i ganiatáu i drydydd parti ddiweddaru fy nghyfrif?

Gallwch roi Atwrneiaeth (PoA) i drydydd parti. Mae Atwrneiaeth yn ddogfen swyddogol lle gallwch benodi atwrnai sy'n caniatáu iddo ryddhau neu ddiweddaru gwybodaeth sy'n ymwneud â'ch cyfrif. Rhaid i Atwrneiaeth gynnwys y cyfnod penodol y gall y trydydd parti weithredu fel atwrnai ar ei gyfer, a'r tasgau penodol y gall eu cyflawni. Gallwch ddal i lenwi'r adrannau o'r ffurflen isod ac anfon copi o'r ddogfen Atwrneiaeth atom. Fel uchod, rhaid i'r person sy'n dal Atwrneiaeth basio ein dilysiad diogelwch.

## Rwyf wedi newid fy meddwl ac nid wyf am roi caniatâd mwyach. Beth ddylwn i wneud?

Gallwch ddileu eich caniatâd ar unrhyw adeg. I wneud hyn, ffoniwch ni ar **0300 200 4050** neu ysgrifennwch atom yn:

**Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyfyngedig**
**10 Clyde Place**
**Glasgow**
**G5 8DF**

Unwaith y byddwch yn dweud wrthym eich bod am ddileu eich caniatâd, ni fydd eich person enwebedig yn gallu cyrchu gwybodaeth eich cyfrif.

# Adran A - Caniatâd i berson unigol

Rhowch fanylion y person unigol. Pan fydd yn ffonio, bydd angen cadarnhau eich enw llawn, eich cyfeirnod cwsmer a'r manylion hyn yr ydych yn eu darparu cyn cyrchu'ch cyfrif.

| | |
|---|---|
| Enw cyntaf | |
| Cyfenw | |
| Dyddiad geni (DDMMBBBB) | _ _ / _ _ / _ _ _ _ |
| Perthynas â chi | |
| Cod mynediad/cyfrinair (dylai hyn fod yn wahanol i\\'r cyfrinair a ddefnyddiwch i fewngofnodi i'ch cyfrif) | |
| Cyfeiriad cyswllt | |
| Cod Post | |
| Dyddiad rydych am gael caniatâd i fod yn weithredol ohono (DDMMBBBB) | _ _ / _ _ / _ _ _ _ |
| Dyddiad yr ydych am gael caniatâd i ddod i ben (gellir diweddaru/estyn hwn unrhyw bryd) (DDMMBBBB) | _ _ / _ _ / _ _ _ _ |

# Adran B - Caniatâd i gynghorydd prifysgol neu drydydd parti

Rhowch fanylion y brifysgol neu gynghorydd trydydd parti. Pan fydd yn ffonio, bydd angen cadarnhau eich enw llawn, eich cyfeirnod cwsmer a'r manylion hyn yr ydych yn eu darparu cyn cyrchu'ch cyfrif.

**Manylion cynghorydd**

| | |
|---|---|
| Enw cyntaf y cynghorydd | |
| Cyfenw'r cynghorydd | |
| Enw sefydliad | |
| Adran | |
| Teitl swydd | |

**Manylion mynediad**

| | |
|---|---|
| Cod mynediad/cyfrinair (dylai hyn fod yn wahanol i\\'r cyfrinair a ddefnyddiwch i fewngofnodi i'ch cyfrif) | |
| Dyddiad rydych am gael caniatâd i fod yn weithredol ohono (DDMMBBBB) | ☐☐/☐☐/☐☐☐☐ |
| Dyddiad yr ydych am gael caniatâd i ddod i ben (gellir diweddaru/estyn hwn unrhyw bryd) (DDMMBBBB) | ☐☐/☐☐/☐☐☐☐ |

# Datganiad y Myfyriwr

Rwy'n cytuno y gall y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyfyngedig gyfnewid gwybodaeth am fy nghyfrif cyllid myfyrwyr gyda'r person a enwir.

Rwy'n cadarnhau ble rwyf wedi darparu unrhyw wybodaeth bersonol parthed trydydd parti, rwyf wedi eu hysbysu o hyn.

Eich cyfeirnod cwsmer

☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

Eich enw llawn (mewn PRIFLYTHRENNAU)

Eich llofnod (mewn inc)

X

Dyddiad heddiw (DDMMBBBB)

☐☐/☐☐/☐☐☐☐